

# Wales Coastal Monitoring Centre



Canolfan Monitro Arfordirol Cymru  
Wales Coastal Monitoring Centre



## First Annual Report 2010/11

May 2011

## Crynodeb Gweithredol

Mae tua 60% (1.9 miliwn) o boblogaeth Cymru yn byw ar, neu ger yr arfordir ac mae 75% o'r arfordir wedi ei ddynodi oherwydd ei bwysigrwydd amgylcheddol. Amcangyfrifir fod yr amgylchedd arfordirol a morol yn cefnogi 93,000 o swyddi gyda'r ymweliadau â'r arfordir yn cyfateb i dros 40% o'r nosweithiau aros yng Nghymru (Croeso Cymru, Is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae amcangyfrif fod 415km o strwythurau i amddiffyn rhag y môr a adeiladwyd gan ddyn i warchod dros £80 biliwn o asedau rhag erydu arfordirol ac i atal llifogydd gan y llanw a byddai'r gost o newid y strwythurau hyn oddeutu £750 miliwn (Swyddfa Archwilio Cymru, 2009).

Mae **Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (CMAC)** ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i sefydlwyd wedi i Fforwm Grwpiau Arfordir Cymru gydnabod fod angen gwella'r ffordd o gydlynu'r gwaith casglu data monitro yr arfordir, storio a dadansoddi yng Nghymru. Ei nod yw sefydlu'r fframwaith sydd ei angen i ddarparu gwybodaeth o safon dda ar newidiadau ar yr arfordir fydd o gymorth gyda phenderfyniadau rheoli risg rhag llifogydd a'r arfordir. Caiff ei chynnal gan Gyngor Gwynedd am gyfnod cychwynnol o dair blynedd ac mae cyfeiriad y Ganolfan yn cael ei osod gan y Bwrdd Prosiect sydd â chynrychiolaeth o'r rhanddeiliaid allweddol ac yn ei dro mae'n adrodd i Fforwm Grwpiau Arfordir Cymru ac i'r rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r adroddiad yma yn disgrifio sut mae prosiect CMAC wedi esblygu, ei gylch gorchwyl gwreiddiol a'r amcanion dilynol a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r cyd-destun polisi i'r prosiect a'r risgiau y mae yn ceisio mynd i'r afael â hwy wedi eu hadnabod.

Mae ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliad drwy 2010/11 wedi gwneud yr arferion monitro arfordir yn y gorffennol a'r presennol yn glir ac wedi galluogi i asesiad gael ei gynnal ar y sefyllfa gwaelodlin bresennol. Mae'r waelodlin yma yn adlewyrchu'r ffynonellau data mae tîm prosiect CMAC yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd ac efallai nad ydynt yn hollol gynhwysfawr; mae ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a chydweithio yn allweddol i lwyddiant prosiect CMAC ac rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau o ddata ychwanegol o ansawdd. Bydd sefyllfa'r waelodlin yn cyfeirio elfennau cychwynnol o raglen 2011/12 i gatalogio a storio data arfordirol presennol yn ddiogel, adnabod bylchau yn y data presennol sydd i'w llenwi fel blaenoriaeth, ac i ystyried unrhyw anghenion yn y dyfodol i ddadansoddi data hanesyddol.

Bydd mwyafrif adnoddau CMAC yn 2011/12 yn cael eu buddsoddi yn nyluniad rhaglen fonitro strategol ar sail risgiau yn y dyfodol i arfordir Cymru a'r nod fydd cael y gwerth gorau am arian drwy well cydlynu o'r arferion monitro arfordirol tu hwnt i'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd yr opsiynau ar gyfer y rhaglen yma yn cael eu cyflwyno fel cais am arian i alluogi i'r rhaglen gael ei lansio a'i chyflwyno yn gychwynnol yn 2012/13.

Mae'r adroddiad yn cydnabod y cwmpas ar gyfer synergedd gyda rhaglenni monitro arfordir mwy sefydledig yn Lloegr ac yn adnabod y cyfleoedd posib a'r effeithlonrwydd y gallai CMAC eu cyflwyno i wella'r arferion monitro presennol. Mae manteision technegol ac ariannol sy'n gysylltiedig â safoni cynyddol o gasglu data arfordirol, rheoli ansawdd a dadansoddi ymdrechion.

Fel mae'r wybodaeth a'r data sydd gan CMAC yn ehangu, bydd y prosiect yn ceisio defnyddio data monitro a dadansoddi i wella'r ddealltwriaeth bresennol o'r prosesau arfordirol, i hysbysu proses ddylunio amddiffyn yr arfordir a datblygu sail tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau rheoli ar bob lefel ar hyd traethlin Cymru.

# First Annual Report 2010/11

May 2011

For further information about the WCMC or to contribute data  
to the project, please contact:

*Louise Pennington MA (Cantab), C.WEM*

Project Co-ordinator

Wales Coastal Monitoring Centre

Email: [louisepennington@gwynedd.gov.uk](mailto:louisepennington@gwynedd.gov.uk)

W C M C